

## Gweithgareddau Wythnos yn dechrau 18/5/20—Thema: Yr Enfys

Fformat ychydig yn wahanol yr wythnos yma.

Rwy'n siwr bod llawer ohonoch chi wedi lliwio neu beintio enfys i gefnogi gweithwyr GIG. Mae'r holl enfysau wedi sbarduno'r syniadau am weithgareddau'r wythnos.

Rydw i wedi rhestru gweithgareddau ond gallaf gadarnhau eu bod yn datblygu sgiliau ar draws amrywiaeth o feysydd dysgu.


- Cân Yr Enfys
- Stori—Lliwiau Hapus (Happy Colours) gan Shen Roddie a Ben Cort, tro-siad gan Roger Boore
- Defnyddiwch eitemau sydd yn eich tŷ i greu enfys ee teganau, tuniau bwyd
- Defnyddiwch y daflen (neu fe allwch chi greu rhywbeth sy'n debyg) i wneud Helfa Drysor Lliwau'r Enfys. Efallai bydd hwn yn weithgaredd neis i wneud tu fas?
- Defnyddiwch CD, gwydriad o ddŵr a torts i geisio gwneud enfys.



- Dysgwch am y lliwiau cynradd, melyn, coch a glas. Wrth gymysgu lliwiau defnyddiwch y daflen (neu fe allwch chi greu rhywbeth sy'n debyg) i ddangos eich canlyniadau.
- Gan ddefnyddio'r lliwiau cynradd yn unig a fedrwch chi beintio enfys. Cofiwch mae yna 7 lliw!
- Gofynnwch y cwestiwn. Pa liw ydych chi'n hoffi? Gofynnwch i bawb yn eich tŷ/teulu. Dysgwch aelodau'ch teulu i ateb Rwy'n hoffi...
- Gyda chymorth oedolyn a fedrwch chi greu graff/pictogram syml o hoff liwiau eich teulu?
- Ceisiwch greu llyfr lliwiau. Un lliw i bob tudalen, tynnwch lun a cheisiwch ysgrifennu'r lliw.

Rwy'n gobeithio y gwnewch chi fwynha'u gweithgareddau. Cofiwch taw awgrym yn unig yw'r gweithgareddau a rydw i wrth fy modd yn gweld eich syniadau chi.

Os hoffech chi rannu eich gwaith gyda eraill o'r dosbarth ymunwch â Cwtsh Mrs Morris ar Facebook.



## Activities for the week beginning 18/5/20—Theme: Yr Enfys/The Rainbow

Slightly different format for this week.

I'm sure many of you have been colouring or painting rainbows to show your support for NHS workers. All these rainbows have been the inspiration behind this week's activities.

I have listed the activities however I assure you that they develop skills across the areas of learning

- Sing—Cân yr Enfys
- Story—Lliwiau Hapus (Happy Colours) by Shen Roddie a Ben Cort, adaptation by Roger Boore
- Use items from your home to create a rainbow ie toys, tins
- Use the worksheet (or create your own) to go on a Rainbow Treasure Hunt. Maybe this would be a nice outdoor activity.
- Use a CD, a glass of water and a torch to make a rainbow.



- Learn about the primary colours, yellow, red and blue. Mix the colours and use the worksheet (or create your own) to record your results.
- By using just the primary colours can you paint a rainbow? Remember there are 7 colours!
- Favourite colours. Ask the question - Pa liw ydych chi'n hoffi? Ask everyone in your house/family. Teach members of your family to answer Rwy'n hoffi... (I like...)
- With help from a grown up can you create a simple graph/pictogram of your family's favourite colours.
- Try and make a book of colours. One colour per page, draw a picture and try and write the colour.

I hope you enjoy the activities. Remember they are suggestions, I really enjoy seeing your ideas.

If you would like to share your work with others from the class please join Cwtsh Mrs Morris on Facebook.